Universities UK

SCOP
promoting higher education colleges

16 Mai 2006

Prifysgolion y Deyrnas Unedig/Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon
Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Llety Myfyrwyr (Cymru)

CYNNWYS

Paragraffau

Rhagarweiniad, diben a chwmpas

Rhagarweiniad i – iii
Diben iv – ix
Cwmpas x – xxi

Cod ymarfer

1. Cyffredinol 1.1 - 1.3

2. Safonau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch 2.1 - 2.38

3. Cyfundrefnau cynnal a chadw ac atgyweirio 3.1 - 3.7

4. Ansawdd amgylcheddol 4.1 - 4.5

5. Perthynas landlord a thenant 5.1 - 5.11

6. Lles myfyrwyr 6.1 - 6.3

7. Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithdrefnau disgyblu 7.1 - 7.4

8. Gweinyddu'r Cod a chydymffurfio â'r Cod 8.1 - 8.7

Atodiad A **Beth yw "managed and controlled" ("yn cael ei ofalu amdano a'i reoli")?**

Atodiad B **Amlinelliad o'r prif ddarpariaethau sy'n berthnasol yn Neddf Tai 2004**

Atodiad C **Gweithdrefn gwyno**

Atodiad D **Proses archwilio a chydymffurfiaeth**

Rhestr o'r Adeiladau y mae'r Cod hwn yn gymwys ar eu cyfer

Rhagarweiniad, diben a chwmpas

Rhagarweiniad

i) Mae'r Cod hwn yn gymwys ar gyfer sefydliadau addysg yng Nghymru. Cafodd y Cod ei baratoi yn bennaf i gynorthwyo rheolwyr llety myfyrwyr, ac unrhyw un sy'n ymwneud â rheoli llety myfyrwyr, drwy amlinellu prif elfennau arferion rheoli da. Mae'n cwmpasu, ymhlith materion eraill, iechyd a diogelwch, cynnal a chadw ag atgyweirio, a'r berthynas rhwng rheolwyr a myfyrwyr fel tenantiaid. Dylai hefyd gynorthwyo myfyrwyr i ddeall y safonau a'r gweithdrefnau sy'n gymwys ar gyfer eu llety a'u dyletswyddau fel tenantiaid neu drwyddedigion.

ii) Cynorthwyodd y canlynol gyda pharatoi'r Cod: Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Ystadau Prifysgolion, Y Gymdeithas ar gyfer Llety Preswyl Myfyrwyr, Cynhadledd Swyddogion Busnes Prifysgolion, Cymdeithas Diogelwch ac Iechyd Prifysgolion, Cymdeithas Penaethiaid Gweinyddu Prifysgolion, Cymdeithas Prif Swyddogion Diogelwch Prifysgolion a Chymdeithas Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr. Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a Rhwydwaith Achredu'r Deyrnas Unedig wrth ei baratoi.

iii) Paratowyd y Cod hwn gan gofio nodweddion arbennig llety myfyrwyr yn y sector addysg uwch ac arferion rheoli yn y sector. Pan fo hynny'n briodol, gall hefyd weithredu fel y cod ar gyfer sefydliadau addysg bellach. Wrth ystyried ymrwymo i'r cod hwn, bydd angen i sefydliadau addysg bellach, yn yr un modd â sefydliadau addysg uwch, sicrhau fod eu harferion rheoli (er enghraifft, mewn perthynas â gweithdrefnau cwyno) yn gydnaws â'r Cod. Bydd holl ddarpariaethau'r Cod hwn yn gymwys ar gyfer llety addysg bellach heblaw pan fo deddfwriaeth arall, yn arbennig yn ymwneud â myfyrwyr o dan 18 oed, yn benodol gymwys.

iv) Nodir y trefniadau gweinyddol ar gyfer y Cod hwn yn Adran 8. Bwriedir y rhain i hwyluso cyflawni dibenion cyffredinol y Cod – gan gynorthwyo i gynnal a gwella safonau a dynodi'n eglur beth y gall myfyrwyr ddisgwyl o'u llety a'r modd y'i rheolir. Maent hefyd yn dynodi trefniadau ar gyfer darganfod unrhyw wendidau ynglŷn â rheoli llety myfyrwyr a chynorthwyo i'w datrys. Pan fo archwiliadau a/neu gwynion yn dangos fod yna fethiannau cyson mewn rheoli gellir dyfarnu nad yw sefydliad addysg uwch (neu sefydliad addysg bellach) bellach yn cydymffurfio â'r Cod.

Diben

v) Mae trefniadau ar gyfer rheoli llety myfyrwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng un sefydliad addysg uwch a'r llall ac mae yna ystod o gyrff addysg uwch proffesiynol yn ymwneud â rhoi gwybodaeth a chyngor ar wahanol agweddau ar ddarparu a rheoli llety. Bwriedir y Cod felly i fodloni angen cydnabyddedig yn y sectorau

addysg uwch ac addysg bellach am “ddogfen ffynhonnell” sy’n ymdrin ag ystod eang o faterion yn ymwneud â llety preswyl addysg uwch. Mae’n nodi’r arferion gorau ac yn cynnig meincnodau ar gyfer rheoli - ac ar gyfer ansawdd - llety myfyrwyr yn y sector.

vi) Fe’i bwriedir hefyd i weithredu fel y cod ymarfer sydd wedi’i gymeradwyo ar gyfer llety sydd yn “managed and controlled” (“yn cael ei ofalu amdano a’i reoli”) mewn addysg uwch ac addysg bellach o dan Ddeddf Tai 2004 sydd, ymysg darpariaethau eraill, yn cyflwyno trefn drwyddedu ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Caiff yr awdurdod cenedlaethol (yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr neu’r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru) “except” (“eithrio”) o’r diffiniad o dŷ amlfeddiannaeth, at ddibenion trwyddedu, llety sy’n cael ei ei ofalu amdano neu ei reoli gan sefydliadau addysg uwch neu bellach[1] pan ddefnyddir y llety’n gyfan gwbl neu yn bennaf gan bersonau i’r diben o ddilyn cwrs addysg bellach neu addysg uwch llawn amser. Gellir eu heithrio ar y sail y bydd pob sefydliad a’i adeiladau sy’n cael eu heithrio felly yn cael eu rheoli yn unol â chod ymarfer sydd wedi’i gymeradwyo.

vii) Mae’r Ddeddf yn darparu ymhellach[2] y caiff yr awdurdod cenedlaethol gymeradwyo un neu ragor o godau ymarfer sy’n nodi’r safonau ymddygiad a gweithredu sydd i’w dilyn mewn perthynas â rheoli tai amlfeddiannaeth neu lety sydd wedi’i eithrio o’r diffiniad o dŷ amlfeddiannaeth.

viii) Mae achredu’n ffurfiol fod sefydliad yn cydymffurfio â chod yn fater i’r rhai sy’n rheoli cod ac mae’n ymgymeriad gwirfoddol ar gyfer y rheolwyr hynny sy’n dewis ymrwymo i’r cod. Fel yn achos codau ymarfer a gymeradwyir o dan ddeddfau eraill, nid yw cymeradwyo cod o dan Adran 233 o Ddeddf Tai 2004 yn gwneud torri’r cod hwnnw’n drosedd ac nid yw torri’r cod yn creu atebolrwydd sifil ychwaith. Fodd bynnag, gellir defnyddio’r cod fel tystiolaeth o arferion da gan lys neu dribwiwnlys.

ix) Gwneir rheoliadau o dan y Ddeddf i eithrio llety myfyrwyr sydd yn “managed and controlled” (“yn cael ei ofalu amdano a’i reoli”) yn unol â chod cymeradwy. Yn y cyd-destun hwn, cymerir fod dweud fod llety yn cael ei ofalu amdano a’i reoli gan sefydliad addysg uwch neu addysg bellach yn golygu fod y sefydliad yn dwyn y prif gyfrifoldeb am atgyweirio a chynnal a chadw ac ar gyfer y berthynas landlord a thenant o ddydd i ddydd. Mae Atodiad A yn esbonio’r drefn ar gyfer penderfynu pa adeiladau sy’n cael eu gofalu amdanynt a’u rheoli felly at ddibenion y Cod hwn. Bydd y drefn honno’n cael ei hadolygu’n fuan.

x) Mae yna gryn amrywiaeth mewn llety ar gyfer myfyrwyr mewn ystadau addysg uwch ac addysg bellach. Mae’n amrywio o adeiladau hanesyddol i adeiladau’r unfed ganrif ar hugain ac, er enghraifft, o lety a adeiladwyd yn y fath fodd, ac sy’n cynnwys y fath gyfarpar, ag sy’n gydnaws ag arddull a diwylliant coleg i lety a

[1] O dan adran 254(5) ac Atodlen 14, paragraff 4.
[2] Adran 233.

gynlluniwyd i ymateb i'r gofyn am ffordd o fyw fwy annibynnol. Mae i hyn oblygiadau ymarferol ar gyfer penderfynu ar yr arferion rheoli gorau. Mae'n gofyn ymagwedd fwy generig yn hytrach na gosod gofynion gorfanwl ac, o reidrwydd, dimensiwn lleol yn ogystal ag un cenedlaethol. Mae'r Cod hwn, felly, yn nodi'r ***prif egwyddorion y dylid eu dilyn a'r gofynion hanfodol y mae'n rhaid eu bodloni*** er mwyn bodloni'r meini prawf ar gyfer achredu ffurfiol (gweler Adran 8 o'r Cod hwn).

xi) Fel yr adeiledir profiad o weithredu Deddf Tai 2004, yn arbennig mewn perthynas â chodau ymarfer, bydd y Cod hwn yn cael ei addasu. Wrth wneud newidiadau, byddir yn talu sylw i newidiadau yn y gofynion rheoliadol, ac i ddatblygiad y gofynion a'r safonau yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach.

Cwmpas

xii) Mae gan sefydliadau addysg uwch (a phellach) eu trefniadau rheoli penodol, gan gynnwys cyrff llywodraethu annibynnol. Maent yn ddarostyngedig i archwiliadau annibynnol mewnol ac allanol. Mae'r berthynas rhwng awdurdodau prifysgol neu goleg â myfyrwyr fel tenantiaid neu fel trwyddedigion o'r herwydd yn wahanol mewn rhai ffyrdd pwysig i'r berthynas rhwng landlord a thenant yn y sector rhentu preifat. Yn ogystal, mae yna ystod o ofynion statudol sy'n gymwys ar gyfer llety myfyrwyr a ddarperir mewn addysg uwch, rhai ohonynt yn gyffredinol ond eraill yn fwy penodol. Mae cwmpas y Cod hwn felly'n adlewyrchu amgylchiadau arbennig sefydliadau addysg uwch. Fe'i datblygwyd o weithdrefnau ac arferion da a oedd wedi'u sefydlu'n barod yn y sector addysg uwch. Mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth godau eraill a gynlluniwyd i fod yn gymwys ar gyfer maes ehangach.

xiii) Mae'r Cod hwn yn gymwys ar gyfer Cymru a dim ond ar gyfer llety myfyrwyr sy'n cael ei ofalu amdano a'i reoli gan sefydliadau addysg uwch, neu gan sefydliadau addysg bellach.

xiv) Paratowyd y Cod hwn gyda golwg ar y gofynion ar gyfer tai amlfeddiannaeth trwyddedig o dan Ddeddf Tai 2004. Mae codau'n darparu mwy o fanylion a chyngor ynghylch yr arferion gorau. Fodd bynnag, fel y dywed y papur ymgynghori perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ni fwriedir codau i osod safonau ffisegol newydd neu rai sy'n uwch na'r rhai yn y ddeddfwriaeth honno "other than for aspirational purposes".[3]

xv) Mae i'r Cod hwn elfennau "gorfodol" a rhai uchelgeisiol fel ei gilydd. Y gofynion sylfaenol yw'r rhai y byddai'n rhaid eu bodloni petai'r llety dan sylw'n ddarostyngedig i drwyddedu o dan y Ddeddf. Maent yn ymwneud â diogelwch

[3] Gweler papur ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ionawr 2005): *Licensing in the Private Rented Sector- Adran 6.*

tân, cynnal a chadw offer nwy a thrydan, cyflenwi dŵr a draenio, toiledau, sinciau, basnau ymolchi, cyfleusterau ar gyfer storio bwyd, cael gwared ar wastraff a sbwriel, cynnal a chadw ardaloedd cyffredin (er enghraifft, iardiau, gerddi), ffenestri ac awyru, atgyweirio strwythurau mewnol a blychau postio. Y gofynion sylfaenol ychwanegol yw bod tenantiaid i'w cynghori ynghylch beth sydd i'w wneud yn achos argyfwng a bod yn rhaid caniatáu mynediad rhesymol i reolwyr i'r safle.

xvi) Cynhwysir hefyd nifer o faterion eraill yn ymwneud ag ansawdd llety myfyrwyr a reoli hynny. Fel yn achos y gofynion sylfaenol, y bwriad yw nodi'r arferion rheoli gorau ar gyfer llety myfyrwyr yn y sector.

xvii) Ni fydd rhai mathau o lety addysg uwch ac addysg bellach yn dod o fewn y diffiniad o dŷ amlfeddiannaeth. Gall mathau eraill o lety fod yn dŷ amlfeddiannaeth nad yw'n cydymffurfio â'r Cod ac nad yw'n ddarostyngedig i'w drwyddedu. Bydd yna rai achosion lle bydd, efallai, angen trwyddedu'r llety am ryw reswm neu'i gilydd (gweler Adran 8 ac Atodiad B). Mae'n bosibl y cyflwynir cynigion am drwyddedu ychwanegol ar gyfer rhai mathau o lety.

xviii) Dylid nodi, er y gallai llety addysg uwch neu addysg bellach a reolir yn unol â'r Cod fod wedi'i eithrio o orfod cael ei drwyddedu o dan y Ddeddf Tai, nad yw llety o'r fath wedi'i eithrio o'r darpariaethau ynghylch safonau tai yn Rhan 1 o'r Ddeddf. Mae'r dull newydd o asesu cyflwr tai (y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai) yn gymwys ar gyfer pob mathau o dai – yn cynnwys tai awdurdod lleol[4].

xix) Mae Atodiad B yn rhoi amlinelliad byr o'r prif ddarpariaethau yn Neddf Tai 2004 sy'n berthnasol i lety myfyrwyr sy'n cael ei ofalu amdano a'i reoli gan sefydliadau addysg uwch.

xxi) Y bwriad yw y bydd y Cod hwn, mewn egwyddor, yn gymwys ar gyfer pob llety myfyrwyr sy'n cael ei ofalu amdano a'i reoli gan sefydliad addysg uwch. Fodd bynnag, ni fydd rhai o ddarpariaethau'r Cod yn gymwys ar gyfer rhai safleoedd bychain unigol oddi ar y stryd sy'n cael eu lesio gan sefydliadau addysg uwch oddi wrth ddarparwyr preifat ac ni ddylid hepgor cynnwys y rheiny yn y rhestr o adeiladau yn yr Atodlen. (Gweler Atodiad A i'r Cod hwn ar gyfer y diffiniad llawn). Bydd yna hefyd beth amrywiaeth ynglŷn â'r graddau y bydd y Cod yn gymwys. Er enghraifft, ni fyddai profi larymau tân wythnosol yn briodol yn achos adeiladau bach. Ac o dan rai amgylchiadau, bydd gofynion deddfwriaeth arall, er enghraifft, ynghylch adeiladau rhestredig, yn rhwystro cydymffurfio cyflawn. Dylai'r adeiladau a restrir yn yr Atodlen fod yn rhai sy'n cael eu meddiannu'n unig neu gan fwyaf gan fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs addysg bellach neu

[4] Gweler Rheoliadau'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006

addysg uwch amser llawn ac y gofelir amdanynt a'u rheoli gan y sefydliad addysg sy'n darparu'r cwrs.

Cod Ymarfer

1. Cyffredinol

1.1 Mae'r Cod hwn yn cymryd yn ganiataol fod sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol o dan ddeddfwriaeth yn ymwneud â thai, adeiladu, cynllunio, gwahaniaethu ar sail anabledd, cyfleoedd cyfartal, diogelu data a deddfwriaeth berthnasol arall. Fel y nodir ym mharagraff iii) y Cod hwn, bydd darpariaethau'r Cod hwn yn gymwys ar gyfer llety addysg bellach heblaw pan fo deddfwriaeth arall, yn arbennig yn ymwneud â myfyrwyr o dan 18 oed, yn gymwys. Gwneir rhai cyfeiriadau yn y testun tuag at ofynion penodol pan allai hynny fod o gymorth i reolwyr llety. Fel sy'n digwydd mewn rhai codau eraill, defnyddir y gair "rhaid" fel arfer i ddynodi gofyniad statudol.

1.2 Dylid darllen y Cod ar y cyd â rheoliadau, rheolau a chodau'r sefydliad a dogfennaeth leol arall sy'n berthnasol i gynnwys y Cod hwn. Dylai sefydliadau addysg uwch hefyd sicrhau fod eu dogfennaeth yn darparu tystiolaeth o gydymffurfio â'r Cod.

1.3 Dylai sefydliadau addysg uwch sicrhau fod cynrychiolwyr myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn gyflawn yn y gweithdrefnau adolygu a chwyno ac yn y gweithdrefnau eraill sy'n hanfodol i weinyddiad y Cod hwn.

2. Safonau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch

2.1 Rhaid i lety myfyrwyr a'i gynnwys a ddarperir gan sefydliad addysg uwch fodloni gofynion yr holl reoliadau a chodau ymarfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol. Gall rhai amgylchiadau arbennig (er enghraifft, deddfwriaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig) gyfiawnhau llacio'r gofynion hyn i ryw raddau.

2.2 Dylai sefydliadau addysg uwch wneud dadansoddiad o'r risg o ddigwyddiadau megis tân, achosion o afiechyd neu fethiannau sylweddol a datblygu gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r rheiny. Dylid dogfennu'r dadansoddiad a'r gweithdrefnau (er enghraifft, mewn cofrestri risg) a dylent fod ar gael i'w harchwilio gan breswylwyr.

2.3 Dylid rhoi cyngor eglur i fyfyrwyr ynghylch beth sydd i'w wneud yn achos argyfwng, er enghraifft, parthed darparu cymorth cyntaf a sut mae galw am ambiwlans. Dylid rhoi manylion cyswllt iddynt ar gyfer argyfyngau a'u hysbysu ynghylch gweithdrefnau cofnodi damweiniau neu ddiffygion diogelwch.

2A. Diogelwch tân

Atal tân

2.4 Dylid darparu gwybodaeth a chyngor i fyfyrwyr pan ddeuant i fyw gyntaf yn y llety ynghylch materion megis:

- Eu rôl nhw mewn osgoi risgiau tân
- Coginio
- Diogelwch ynglŷn â thrydan – yn arbennig parthed gwahaniaethau mewn foltedd
- Peryglon defnyddio canhwyllau neu storio deunydd fflamadwy
- Camau disgyblu y gellir eu cymryd os camddefnyddir larymau tân neu offer ymladd tân
- Diffoddwyr tân

Dylid arddangos gwybodaeth hanfodol mewn ceginau ac ardaloedd cyffredin a dylai'r wybodaeth honno, yn ogystal â gwybodaeth fwy cyffredinol, fod ar gael ar ffurf brintiedig a/neu ar wefannau.

Darganfod tân a larymau

2.5 Rhaid sicrhau fod systemau diogelwch tân yn gweithio'n iawn bob adeg a rhaid eu profi'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau sy'n berthnasol i bob math penodol o offer a phob math o adeilad. Penderfynir ar ddyluniad a manylion systemau ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes yn unol ag asesiad risg diogelwch tân ac mewn ymgynghoriad â'r awdurdod tân neu'r awdurdod lleol fel bo'n briodol.

Yn benodol:

- Dylid profi systemau larwm tân yn wythnosol ar adegau a drefnir ymlaen llaw (ond gweler paragraff xxi) o'r Cod hwn)
- Dylid cadw cofnodion ynghylch profi ac archwilio larymau tân
- Dylid darparu gwybodaeth a chyngor i fyfyrwyr ynghylch diogelwch tân ac arferion da mewn perthynas â thân pan ddeuant i fyw gyntaf yn y llety. Dylid arddangos cyfarwyddyd ynghylch beth ddylid ei wneud yn achos tân, yn cynnwys camau i rwystro tân rhag lledaenu, mewn lle amlwg
- Dylid cynnal a chadw unrhyw offer diffodd tân a ddarperir mewn modd priodol

Dianc

2.6 Dylid sicrhau fod ffyrdd i ddianc rhag tân – yn fewnol ac yn allanol – yn cael eu cadw mewn cyflwr da a'u bod ar gael i'w defnyddio ar bob adeg. Penderfynir ar ddyluniad a manylion y systemau ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes yn unol ag asesiad risg diogelwch tân ac mewn ymgynghoriad â'r awdurdod tân neu'r awdurdod lleol fel bo'n briodol. Dylai systemau diogelwch megis y canlynol gael eu profi'n rheolaidd yn unol â'r Safon Brydeinig briodol:

- Goleuo mewn argyfwng
- Cyflenwadau pŵer wrth gefn mewn argyfwng, megis generaduron a systemau batri wrth gefn
- Drysau tân sydd mewn cyflwr da ac yn cau'n gywir
- Mecanweithiau datgloi drysau'n awtomatig
- Offer metel dianc mewn argyfwng megis bariau gwthio

2.7 Dylid cynnal ymarferion dianc yn achos tân ar ddechrau pob blwyddyn academaidd yn unol â'r trefniadau ar gyfer adeiladau penodol a'r systemau darganfod tân y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod tân lleol. Dylid cadw cofnodion o'r rhain.

2.8 Er mwyn sicrhau y gellir gwagio adeiladau o bobl yn ddiogel yn achos tân, rhaid sicrhau fod ffyrdd diogel i mewn ac allan ar gael bob adeg – gan gynnwys coridorau, pennau grisiau, grisiau a chynteddau.

2.9 Dylai myfyrwyr sydd ag anableddau roi gwybod am hynny ar ddechrau eu tymor cyntaf neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny fel y gellir eu hysbysu ynghylch unrhyw drefniadau arbennig (er enghraifft, cynlluniau dianc personol) sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer yn achos tân neu argyfwng arall.

2B. Cyflenwadau trydan a nwy

2.10 Heblaw yn achos argyfyngau neu ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol, rhaid cynnal cyflenwadau o drydan a nwy a goleuo yn ddi-fwlch. Rhaid cynnal a chadw offer nwy a thrydan yn briodol a'u profi'n unol â rheoliadau diogelwch nwy a Safonau Prydeinig.

2.11 Dylid darparu cyfarwyddiadau ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw offer nwy neu drydan yn ddiogel.

Offer nwy

2.12 Rhaid i bob cyflenwad nwy, peipiau cyflenwi ac offer nwy gydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch nwy perthnasol.

2.13 Rhaid cynnal prawf diogelwch tân yn flynyddol ar yr holl offer nwy gan osodwr offer nwy gyda chofrestriad CORGI. Rhaid i gopi o'r dystysgrif diogelwch fod ar gael yn unol â'r rheoliadau.

2.14 Pan fo angen i fyfyrwyr ddefnyddio offer rheoli systemau gwres canolog neu ddŵr poeth sy'n defnyddio nwy, rhaid darparu cyfarwyddiadau syml a chywir ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithlon.

Gosodiadau trydan
2.15 Rhaid gosod pob gosodiad trydanol newydd yn cynnwys offer sefydlog a rhaid cynnal a chadw pob gosodiad sy'n bodoli eisoes yn unol â fersiwn ddiweddaraf Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol.

2.16 Rhaid archwilio a phrofi pob gosodiad trydanol mewn adeiladau yn unol â Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol, ar hyn o bryd o leiaf bob pum mlynedd, a chofnodi'r canlyniadau mewn cofrestr briodol.

Cynhesu gyda thrydan
2.17 Pan ddarperir offer gwresogi trydan sefydlog mewn ystafelloedd, dylai cyfarwyddiadau ynghylch sut i ddefnyddio'r offer fod ar gael.

Profi Offer Cludadwy
2.18 Rhaid i'r holl offer cludadwy a ddarperir gan sefydliad addysg uwch, neu sy'n cael ei ddefnyddio ar y safle gan staff sefydliad addysg uwch, gael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw yn unol â pholisi profi offer cludadwy'r sefydliad. Pan fo yna drefniadau ar gyfer profi offer trydanol personol myfyrwyr, dylid nodi'r rhain yn y polisi profi offer cludadwy.

2.19 Bydd yn ofyniad ym mhob cytundeb tenantiaeth neu drwyddedu fod y myfyriwr i gynnal amgylchedd rhesymol o ddiogel ar gyfer cyflogeion y sefydliad addysg uwch a all fod angen dod i mewn i'r safle, er enghraifft, drwy sicrhau fod ceblau i offer trydanol personol yn ddiogel.

2.20 Dylai fod yna weithdrefn ar gyfer ymdrin ag offer trydanol personol a allai fod yn beryglus. Gallai hyn gynnwys gosod label yn rhybuddio fod yr offer yn anniogel, cyfarwyddyd i'w symud neu, mewn achosion eithafol, er enghraifft os oes yna risg o dân neu drydanu, ei symud ar gyfer ei gadw'n ddiogel neu ei wneud yn anweithredol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai sefydliadau addysg uwch hysbysu'r myfyrwyr dan sylw.

Cyflenwadau Dŵr
2.21 Rhaid darparu dŵr poeth ac oer ar gyfer pob safle a hynny i dapiau sydd wedi'u marcio'n briodol. Dylid nodi'n eglur unrhyw gyflenwad dŵr oer nad yw'n ddiogel i'w yfed.

Dŵr gwastraff
2.22 Rhaid cael gwared ar bob dŵr gwastraff drwy gyswllt gyda thrap addas i'r system garthffosiaeth.

Hylendid Dŵr
2.23 Rhaid gosod, monitro a chynnal a chadw gwasanaethau dŵr poeth ac oer yn unol â gofynion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gofynion statudol ynghylch iechyd y cyhoedd.

Goleuo

2.24 Dylid darparu goleuo yn unol ar argymhellion Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladau. Mewn ystafelloedd gwely/stydi, gellir cyrraedd y lefel a argymhellir o oleuo drwy ddefnyddio goleuo tasg lleol.

2C Diogelwch

Diogelwch adeiladau ac ystafelloedd

2.25 Dylai llety myfyrwyr fod yn ddiogel rhag tresmaswyr. Yn ddarostyngedig i asesiad risg lleol, dylai drysau prif fynedfeydd a drysau ystafelloedd gwely unigol fod yn rhai y gellir eu cloi, gyda'r holl fyfyrwyr sy'n denantiaid yn yr adeilad yn gallu defnyddio drws y brif fynedfa a dim ond y myfyriwr sy'n ei meddiannu yn gallu defnyddio drws ystafell wely. Dylid nodi'r trefniadau ar gyfer mynediad yn achos colli allweddi ac ati yn y pecyn croeso ar gyfer myfyrwyr neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny.

2.26 Dylai'r myfyriwr allu cloi pob ffenestr ar y llawr isaf a'r llawr cyntaf yn ddiogel. Ni ddylai ffenestri fod yn berygl i ddiogelwch o dan unrhyw amgylchiadau ac, yn ddarostyngedig i asesiad risg lleol, dylid gosod rhwystrau ar yr holl ffenestri fel na ellir eu hagor yn rhy bell.

Staff diogelwch

2.27 Dylid sicrhau fod staff diogelwch yn hawdd eu hadnabod. Dylid fetio staff yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Dylai staff diogelwch sy'n mynd i mewn i ystafell wely yn absenoldeb y myfyriwr orfod cadw cofnod sy'n nodi'r rheswm pam yr aed i mewn.

Cynllun diogelwch

2.28 Dylai fod gan sefydliadau addysg uwch gynllun diogelwch sy'n nodi'r ymagwedd gyffredinol tuag at faterion diogelwch. Dylai'r cynllun gynnwys gweithdrefnau yn achos argyfwng, er enghraifft, pan geir rhybudd o fom, neu pan mae angen galw am ambiwlans.

Teledu cylch cyfyng

2.29 Pryd bynnag y bo llety myfyrwyr yn cael ei fonitro gan deledu cylch cyfyng, bydd rhybudd ynghylch hynny yn y cyntedd neu wrth y fynedfa allanol i'r adeilad. Bydd yr offer yn cael ei osod a'i ddefnyddio'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

2D Cyfleusterau cegin, storio bwyd, cyfleusterau ymolchi, dodrefnu, trefniadau glanhau a materion eraill

Ceginau

2.30 Pan ddarperir cyfleusterau cegin dylid eu cadw mewn trefn a chyflwr da, gyda'r holl offer wedi'i gyflenwi'n gweithio'n iawn. Dylai cyfleusterau ar gyfer

paratoi, coginio a storio bwyd fod yn addas ar gyfer y nifer o fyfyrwyr a fydd yn defnyddio'r cyfleusterau. Dylai cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddwyr fod ar gael.

Storio bwyd

2.31 Dylid darparu cyfleusterau ar gyfer cadw bwyd yn oer o fewn safleoedd hunan-ddarpar a phan fo angen dylai fod myfyrwyr yn gallu eu cloi er mwyn rhwystro chwiwladrata.

Ystafelloedd ymolchi, toiledau a chawodydd

2.32 Dylid sicrhau fod yna awyru digonol a lloriau sy'n atal llithro yn y mannau hyn. Dylai'r holl doiledau a chyfleusterau ymolchi fod yn gweithio'n effeithiol a heb fod â chraciau neu doriadau. Dylai fod sedd toiled wedi'i gosod ar bob toiled. Dylid darparu llenni neu sgriniau cawod fel bo'n briodol.

Cyfleusterau ymolchi a thoiledau'n gysylltiedig ag ystafelloedd

2.33 Pan ddarperir y rhain dylent fod wedi'u gosod oddi mewn i ystafell wely/stydi neu rhwng dwy ystafell wely/stydi sengl y drws nesaf i'w gilydd ar gyfer defnydd meddiannydd neu feddianwyr yr ystafell neu'r ystafelloedd hynny yn unig. Dylai'r cyfleuster, er ei fod o fewn yr ystafell, fod ag awyru allanol a drws i mewn iddo sy'n ei wneud yn uned hunangynhwysol.

Ansawdd dodrefn

2.34 Dylai addurniadau a dodrefn fod mewn cyflwr da, gyda gwirio rheolaidd ar gyfer namau a rhaglenni adnewyddu rheolaidd. Rhaid i'r holl ddodrefn a ddarperir gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Dylid darparu'r canlynol o leiaf ar gyfer pob ystafell wely: gwely, matres, wyneb gweithio, cadair, llenni/bleind, droriau/silffoedd, cwpwrdd dillad a chynhwysydd gwastraff.

Glanhau

2.35 Dylid hysbysu myfyrwyr ynghylch y trefniadau glanhau. Dylai hyn gynnwys glanhau eiddo a beth yw cyfrifoldeb myfyrwyr ar gyfer glanhau eiddo. Dylid paratoi pob ystafell cyn y cymerir meddiant ohoni yn unol â datganiad lefel gwasanaeth (gweler paragraff 5.2).

Cyfleusterau golchi dillad ac ati

2.36 Pan ddarperir y rhain dylent fod yn gweithio'n effeithiol. Dylai cyfarwyddiadau fod ar gael, yn cynnwys gweithdrefnau hysbysu ynghylch namau a gweithdrefnau yn achos argyfwng.

Ynni

2.37 Pan fo hynny'n gydnaws ag ystyriaethau diogelwch ac yng ngoleuni asesiad risg lleol, dylai goleuadau mewn mannau cyhoeddus fod wedi'u rheoli gan switsys rheolaeth amser. Dylai sefydliadau addysg uwch annog defnyddwyr i ddiffodd goleuadau ac offer trydan pan nad oes eu hangen. [Gweler Ansawdd Amgylcheddol, Adran 4, isod]

Post / Llythyrau

2.38 Dylid nodi'r trefniadau ar gyfer post yn y pecyn croeso ar gyfer myfyrwyr neu mewn deunydd ymsefydlu tebyg. Dylai eitemau o bost personol gael eu derbyn ar y safle a dylai fod yna gyfleusterau ar gyfer eu casglu gan breswylwyr neu eu dosbarthu iddynt. Gall fod yna drefniadau lleol wedi'u sefydlu gyda'r Post Brenhinol ar gyfer dosbarthu llythyrau a pharseli. Dylid arddangos yr holl fanylion ynghylch dosbarthu a chasglu yn eglur o fewn y safle. Ar ddiwedd y cyfnod contract, dylid anfon unrhyw bost na chafodd ei gasglu neu na ellir ei ddosbarthu yn ôl at yr anfonwr, hyd y mae hynny'n ymarferol bosibl.

3. Cyfundrefnau cynnal a chadw ac atgyweirio

Contractwyr wedi'u cymeradwyo

3.1 Pan fo sefydliad addysg uwch yn uniongyrchol gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw, dylai'r gwaith hwnnw gael ei wneud gan staff a gyflogir gan y sefydliad addysg uwch neu gan gontractwyr allanol o'r rhestr o'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo gan y sefydliad addysg uwch. Dylai'r personau sy'n gwneud y gwaith hwnnw fod yn hawdd eu hadnabod.

Amserau ymateb

3.2 Dylai datganiad lefel gwasanaeth, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, fod ar gael yn ynglŷn â hysbysu ynghylch namau mewn adeiladau a'u cywiro. Dylai'r datganiad lefel gwasanaeth nodi amserau ymateb o fewn y categorïau blaenoriaeth – argyfwng, brys a heb fod yn frys. (Gweler paragraff 5.2)

Cynnal a chadw

3.3 Dylid cyflawni'r holl waith cynnal a chadw mewn modd sy'n osgoi anghyfleustra i breswylwyr hyd y mae hynny'n bosibl. Ni fydd hynny'n bosibl bob tro gyda gwaith cynnal a chadw na chafodd ei gynllunio (gwaith adweithiol). Ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio, dylid fel arfer rhoi saith niwrnod o rybudd i breswylwyr; dylid gwneud pob ymdrech i osgoi cyfnodau sensitif megis arholiadau. Ar gyfer gwaith brys, dylid rhoi rhybudd o 24 awr o leiaf oni bai fod argyfwng yn gofyn gweithredu'n syth.

Ansawdd adeiladu

3.4 Rhaid adeiladu, addasu ac adnewyddu'r holl adeiladau yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol parthed adeiladu, cynllunio a thai a dylai'r un peth fod yn wir ynglŷn â chynnal a chadw. Dylai'r hysbysiadau cymeradwyaeth a'r tystysgrifau perthnasol fod ar gael i'w harchwilio drwy drefniant ymlaen llaw.

Cynnal a chadw tiroedd

3.5 Dylid cynnal a chadw'r holl erddi a ffensys o gwmpas preswylfeydd yn daclus ac mewn modd sy'n lleihau i'r eithaf y cyfle i ddrwgweithredwyr ymguddio. Dylai'r prif lwybrau fod wedi'u palmantu'n galed (neu fod ag arwyneb addas arall) a dylid eu goleuo mewn modd sy'n briodol ar gyfer yr amgylchedd.

Clirio sbwriel

3.6 Dylid clirio gwastraff a sbwriel oddi ar diroedd yn rheolaidd fel y dynodir yn y datganiad lefel gwasanaeth perthnasol, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny. Disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn yn gyfrifol, gan osgoi gadael sbwriel neu ychwanegu ato.

Polisïau clirio eira a rhew

3.7 Dylai polisïau ynghylch clirio eira a rhew nodi o fewn pa amser y gellir disgwyl i'r clirio ddigwydd a dylid eu harddangos mewn ardal gyffredin a/neu ar y wefan briodol.

4. Ansawdd Amgylcheddol

Defnyddio ynni'n effeithlon

4.1 Dylid darparu gwresogi, dŵr poeth ac awyru digonol, fel bo'n briodol, ar gyfer pob ystafell wely, man cymdeithasu, cegin ac ystafell gawod / ystafell ymolchi. Dylid nodi'r tymheredd aer mewnol isaf a'r tymheredd isaf a ganiateir ar gyfer dŵr poeth ym mholisi rheoli ynni sefydliad addysg uwch. Dylid annog myfyrwyr i ymddwyn yn gyfrifol, gan gadw mewn cof yr effaith ar yr amgylchedd, wrth ddefnyddio ynni a dŵr.

Casglu gwastraff

4.2 Dylid trefnu casglu'r holl wastraff domestig a gynhyrchir gan breswylfeydd. Dylid nodi'r manylion mewn cynllun rheoli gwastraff a dylid arddangos hysbysiadau ynghylch y trefniadau casglu yn yr holl ardaloedd cyffredin.

Ailgylchu

4.3 Pan fo cynlluniau ailgylchu awdurdod lleol neu rai preifat yn bodoli, dylid gwneud pob ymdrech i annog preswylwyr i fanteisio ar y rhain cyn belled â'i bod yn ddichonadwy gwneud hynny. Dylid cynnwys manylion trefniadau ailgylchu ym mholisi amgylcheddol y sefydliad addysg uwch.

Parcio Ceir

4.4 Dylid hysbysu myfyrwyr ynghylch polisïau parcio ceir. Pan fo'n berthnasol, dylid nodi'r trefniadau ynghylch parcio ceir ym mholisi trafnidiaeth y sefydliad addysg uwch. Dylai'r polisi hwnnw hefyd gynnwys gwybodaeth ynghylch argaeledd parcio ar gyfer beiciau a beiciau modur ac ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus.

Polisi cymdogion da

4.5 Dylid annog myfyrwyr i gofio eu bod yn byw yn agos at gymdogion o fewn eu llety ac yn y gymuned ehangach.

5. Perthynas landlord a thenant

5A Polisïau a Gweithdrefnau

5.1 Dylai sefydliadau addysg uwch fod wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau eglur a chydlynol ynghylch y berthynas rhwng rheolwyr, fel landlordiaid, a myfyrwyr, fel tenantiaid neu drwyddedigion. Dylid darparu fersiynau cryno o'r rhain ar gyfer pawb sy'n ystyried dod yn breswylydd cyn iddynt gytuno ar gontract gyda'r sefydliad addysg uwch ar gyfer llety preswyl.

5.2 Dylai polisïau a gweithdrefnau gynnwys gwybodaeth ynghylch:

- **Gwneud ceisiadau** am lety preswyl a **dyrannu** llety.
- **Taliadau am lety:** sut y penderfynir ar daliadau ar gyfer pob sesiwn academaidd, a pha gorff o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am bennu'r taliadau.
- **Casglu taliadau:** yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol y gallai preswylydd orfod eu talu, er enghraifft, taliadau am dalu'n hwyr, taliadau am adennill dyledion, cosbau am ôl-ddyledion; ac unrhyw ostyngiadau a allai fod ar gael a sut y cynigir y rheiny.
- **Datganiadau lefel gwasanaeth**, neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt: dylai'r rhain nodi materion megis trefniadau glanhau ac amseroedd ymateb ar gyfer mynd i'r afael â namau mewn adeiladau. Gall **pecynnau croeso ar gyfer myfyrwyr,** neu ddeunyddiau ymsefydlu tebyg, gynnwys gwybodaeth gryno ynghylch datganiadau lefel gwasanaeth, ond dylent beth bynnag nodi lle gall myfyrwyr gael y manylion (er enghraifft, ar wefan).
- **Ernesau yn erbyn difrod / diffyg gofal** : sut y gweinyddir unrhyw gynllun gan y sefydliad addysg uwch ac yn benodol: faint, pryd/sut maent i'w talu, i beth y'u defnyddir, a phryd/lle y bydd yr arian sydd ar ôl yn cael ei ddychwelyd.
- **Terfynu** a **chanslo** contract ar gyfer llety.
- **Cwynion** wedi'u cyfeirio yn y lle cyntaf at wasanaeth llety'r sefydliad addysg uwch, gyda hawl i apelio ar faterion na chawsant eu datrys drwy ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r sefydliad, a ddylai gynnwys trefn ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth gan fyfyrwyr. Dylid hysbysu myfyrwyr y gallant, os dymunant, gyfeirio cwynion at gyrff allanol yn cynnwys Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a Phwyllgor Rheoli Cod Prifysgolion y Deyrnas Unedig – gweler Adran 8 ac Atodiad C i'r Cod hwn.
- **Rhestrau eiddo:** dylai rhestr eiddo fod ar gael ym mhob ystafell pan fydd myfyrwyr yn cychwyn ar eu cyfnod o breswylio.

- **Mynediad i ystafelloedd gwely/stydi** yn nodi pwy gaiff fynd i mewn, pa rybudd sy'n ofynnol ymlaen llaw a'r rhesymau pam y gellir mynd i mewn i ystafelloedd.
- **Hysbysu ynghylch namau / cynnal a chadw** : gweithdrefnau hysbysu ynghylch namau yn cynnwys nodi â phwy y dylid cysylltu ac o fewn pa gyfnod y gellir disgwyl cyflawni gwaith atgyweirio.
- **Pobl heb fod yn breswylwyr a gwesteion:** mynediad gan bobl nad ydynt yn breswylwyr a/neu westeion.

5.3 Dylai gwybodaeth ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r sefydliad addysg uwch a'r myfyrwyr fod ar gael yn rhwydd ar ddechrau ac ar ddiwedd unrhyw gyfnod contract.

5B Cyfathrebu rhwng y rheolwyr a'r myfyriwr

Gwybodaeth ymlaen llaw

5.4 Er mwyn i fyfyrwyr allu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu dewis o lety, dylai sefydliadau addysg uwch ddarparu gwybodaeth eglur a chywir ar gyfer darpar fyfyrwyr. Dylai fod mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl a dylai gynnwys:

- Datganiad ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais am lety
- Ffurflenni cais sy'n addas ar gyfer y math(au) o lety sydd ar gael
- Y broses o wneud cais am lety preswyl
- Y nifer o ystafelloedd o wahanol fathau sydd ar gael
- Y taliadau ar gyfer pob math o ystafell a thelerau talu
- Hyd y cyfnod contract ar gyfer pob math o ystafell
- Unrhyw bolisi dyrannu sy'n cael ei weithredu
- Y telerau preswylio sy'n gymwys, yn cynnwys dyletswyddau'r landlord a'r tenant/trwyddedai
- Argaeledd mannau parcio a chyfleusterau cadw beiciau, os o gwbl

Gwybodaeth wrth Ymsefydlu

5.5 Dylai sefydliadau addysg uwch ddarparu cyfarfod ymsefydlu a/neu ddosbarthu pecyn croeso neu lenyddiaeth ymsefydlu arall pan ddaw myfyrwyr i'r llety am y tro cyntaf. Dylai hynny hysbysu myfyrwyr fod y Cod hwn yn gymwys ar gyfer eu llety nhw. Dylai hefyd gynnwys cyngor penodol ynghylch materion megis iechyd, diogelwch (er enghraifft, y drefn ar gyfer dianc yn achos tân), materion lles a chyngor ynghylch byw o dan yr un to ag eraill.

Strwythur rheoli a manylion cyswllt

5.6 Pan ddaw myfyriwr i'r llety am y tro cyntaf, dylai sefydliadau addysg uwch ddarparu gwybodaeth ynghylch y strwythur rheoli ar gyfer llety preswyl, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer swyddogion ar ddyletswydd / wardeniaid / staff diogelwch / cynrychiolwyr myfyrwyr a hefyd, fel bo'n briodol, unrhyw swyddfa llety ganolog, swyddfa cynnal a chadw neu swyddfa neuaddau.

Atebolrwyddau yswiriant

5.7 Dylai sefydliadau addysg uwch ddarparu datganiad yn nodi beth yw cwmpas eu hatebolrwyddau yswiriant nhw parthed eiddo ac eitemau personol myfyrwyr.

5C Perthynas o dan Gontract

5.8 Dylid amlinellu beth yw'r berthynas o dan gontract rhwng sefydliad addysg uwch fel landlord a myfyrwyr fel tenantiaid neu drwyddedigion mor eglur a chryno ag y gellir.

Contract ar gyfer llety preswyl

5.9 Dylai sefydliadau addysg uwch ddarparu contract addas y bydd y sefydliad addysg uwch (fel landlord) a'r myfyriwr (fel tenant neu drwyddedai) yn ymrwymo iddo.

5.10 Dylai'r contract gynnwys unrhyw delerau preswylio penodol sy'n gymwys, neu gyfeirio atynt. Dylai'r sefydliad addysg uwch ddarparu copi o'r contract ar gyfer y myfyriwr.

5.11 Dylai'r llawlyfr myfyrwyr, neu gyhoeddiad tebyg, nodi'n eglur yr hyn y gall y naill barti ddisgwyl oddi wrth y llall parthed gweithredu, cyfathrebu, ymddygiad, a pharchu ei gilydd.

6. Cymorth i Fyfyrwyr

Lles

6.1 Dylai sefydliadau addysg uwch sicrhau fod yna ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n ceisio cymorth neu sydd am gael eu cynghori ynghylch materion lles neu faterion ariannol sy'n ymwneud, yn arbennig, â'u llety – gan gydweithio, pan fo'n briodol, ag undeb y myfyrwyr.

6.2 Dylai sefydliadau addysg uwch hefyd sicrhau fod yna drefniadau ar gyfer cymorth brys y tu allan i oriau (er enghraifft, drwy ddarparu tiwtoriaid personol, wardeniaid neu ddarpariaeth fugeiliol arall neu staff diogelwch).

Iechyd

6.3 Dylai sefydliadau addysg uwch annog myfyrwyr i gofrestru gyda'r gwasanaeth iechyd lleol neu gyda meddyg teulu lleol neu, pan fo'r rheiny'n bodoli, gyda gwasanaethau meddygol y sefydliadau eu hunain. Dylent fod â gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer ymdrin â chlefydau hysbysadwy.

7. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gweithdrefnau Disgyblu

7.1 Dylid rheoli adeiladau llety mewn ffordd sy'n cynorthwyo i atal unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol[5] ar ran tenantiaid neu eu hymwelwyr, neu i fynd i'r afael yn effeithiol ag unrhyw ymddygiad o'r fath. Pan fo angen, dylid paratoi strategaeth ymateb mewn ymgynghoriad â'r heddlu ac asiantaethau eraill.

Ymarweddiad

7.2 Dylid annog myfyrwyr i ymddwyn mewn ffordd addas a phriodol ar bob adeg ac i barchu eu cymdogion – sef eu cyd-fyfyrwyr a'r gymuned leol.

Ymddygiad

7.3 Dylid sicrhau fod myfyrwyr yn ymwybodol o god ymddygiad y sefydliad addysg uwch ac unrhyw weithdrefnau disgyblu. Gellir ymdrin ag unrhyw ymddygiad sy'n dwyn anfri ar enw'r sefydliad addysg uwch o dan weithdrefnau disgyblu; gellir hysbysu awdurdodau eraill ynghylch ymddygiad annerbyniol os bydd gofyn.

Gofal am adeiladau a'r ardaloedd o'u cwmpas

7.4 Dylid annog myfyrwyr i wneud pob ymdrech i sicrhau fod eu hadeilad a'r ardal o'i gwmpas yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n eu cadw fwy neu lai yn yr un cyflwr â phan ddaethant yno gyntaf.

8. Gweinyddu'r Cod a chydymffurfio â'r Cod

8.1 Mae sefydliadau addysg uwch yn gyrff sydd wedi'u hen sefydlu ac sy'n rheoli eu hunain. Mae cyrff llywodraethu annibynnol yn arolygu'r modd y cânt eu rheoli. Mae pob sefydliad yn ddarostyngedig i archwiliadau mewnol, annibynnol y cyflwynir adroddiadau arnynt i'r corff llywodraethu. Yn ogystal, mae'n ofynnol fod archwilwyr allanol annibynnol sefydliadau'n archwilio pob agwedd ar y modd y'u

[5] Defnyddir y term ymddygiad gwrthgymdeithasol yma mewn ystyr gyffredinol yn hytrach nag mewn ystyr benodol statudol.

rheolir. Cynhwysir canfyddiadau ynghylch ansawdd rheoli yn adroddiad blynyddol pob sefydliad.

8.2 Mae gan sefydliadau addysg uwch systemau mewnol sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer ymdrin â chwynion oddi wrth fyfyrwyr ynghylch materion llety. Efallai bydd myfyrwyr hefyd yn gallu dilyn rhai gweithdrefnau cwyno allanol.

8.3 O gofio'r fframwaith sy'n bodoli eisoes ar gyfer rheoli sefydliadau addysg uwch, y sefydliadau eu hunain fydd y cyrff fydd yn bennaf atebol am weithredu'r Cod. Yn ogystal, mae yna angen am gorff cydgysylltu a chorff i arolygu ei weithrediad ac i ymdrin â materion yn ymwneud â chydymffurfio ag â methiant i gydymffurfio â'r Cod. Bydd swyddogaethau'r **corff cydgysylltu (Prifysgolion y Deyrnas Unedig/Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon)** yn cynnwys diweddaru'r Cod a thynnu ynghyd adroddiadau oddi wrth sefydliadau, adborth gan randdeiliaid a ffurfiau eraill o fonitro. Mae'n ofynnol fod pob sefydliad sydd wedi ymrwymo i'r Cod hwn yn cyfarwyddo'u harchwilwyr mewnol i adolygu gweithredu'r Cod gan y sefydliad fel rhan o'u gwaith blynyddol. Bydd Pwyllgor Rheoli Cod Prifysgolion y Deyrnas Unedig (gweler isod) yn ystyried achosion pan honnir y bu methiant i gydymffurfio a gallant sefydlu darpariaeth fwy cyffredinol ar gyfer gwirio cydymffurfio yn annibynnol. Os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau cymryd y cam hwnnw, caiff y pwyllgor benderfynu nad yw sefydliad addysg uwch bellach yn cydymffurfio â'r Cod mewn perthynas â'r cyfan o'i lety myfyrwyr neu ran ohono. Byddid yn cyhoeddi unrhyw benderfyniad o'r fath. Mae Atodiad D i'r Cod hwn yn amlinellu'r broses archwilio a chydymffurfiaeth.

8.4 **Prifysgolion y Deyrnas Unedig/ Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon** fydd â'r prif gyfrifoldeb ar gyfer gweinyddu'r Cod Ymarfer. Bydd hynny'n cynnwys y canlynol:

- **Cadw cofnod llawn** o'r holl sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r Cod, ac o'r adeiladau y mae'r Cod yn eu cwmpasu ar gyfer pob sefydliad, a sicrhau fod y cofnod ar gael i'r cyhoedd.

- **Cydgysylltu â Rhwydwaith Achredu'r Deyrnas Unedig** i sicrhau rheoli'r trefniant cod deuol yn y sector yn effeithiol – bydd hyn yn cynnwys bod yn aelod o bwyllgor rheoli Rhwydwaith Achredu'r Deyrnas Unedig.

8.5 Bydd gan bwyllgor sefydlog annibynnol, **Pwyllgor Rheoli Cod Prifysgolion y Deyrnas Unedig/Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon,** gynrychiolaeth oddi wrth grwpiau rhanddeiliaid perthnasol yn cynnwys: uwch reolwyr prifysgolion a cholegau; Cymdeithas y Colegau; proffesiynau arbenigol yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach; Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Rhwydwaith Achredu'r Deyrnas Unedig; ac awdurdodau lleol. Bydd y Pwyllgor yn arolygu gweithrediad y Cod ac yn rhoi cyngor yn ôl y gofyn parthed materion rheoli o ddydd i ddydd. Bydd yn cynnal **arolwg blynyddol** o'r Cod, gan gymryd i ystyriaeth profiadau sefydliadau addysg uwch, canfyddiadau

archwiliadau, cwynion sy'n amlygu materion yn ymwneud â chydymffurfio â'r Cod ac adroddiadau oddi wrth gyrff eraill (gweler isod). Er mwyn sicrhau fod y Cod yn cael ei weithredu'n effeithiol a'i ddiweddaru fel bo'n briodol, gofynnir i sefydliadau ddarparu gwybodaeth gryno i'r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Cwynion o bwys a wnaed gan fyfyrwyr sy'n ymwneud â methiannau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Awgrymir fod "o bwys" yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at gwynion sydd wedi dod i sylw corff uwch yn y sefydliad neu sydd wedi cael eu cyfeirio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (gweler Atodiad C).

- Yr adran berthnasol o adroddiadau archwilwyr, ymateb y rheolwyr a'r amserlen ar gyfer ymdrin ag argymhellion yr archwilwyr.

8.6 Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn ceisio adroddiadau oddi wrth sefydliadau ynghylch unrhyw gwynion yn ymwneud â thorri'r Cod a gyfeiriwyd yn uniongyrchol at y Pwyllgor neu at gyrff allanol.

8.7 Gan gymryd i ystyriaeth adroddiadau'r cyrff hyn, adroddiadau archwilio a chwynion a gyflwynwyd iddo, bydd y Pwyllgor yn ystyried achosion o fethiant honedig i gydymffurfio ac os bydd angen yn ymchwilio ymhellach. Caiff y Pwyllgor wneud cynigion i gynorthwyo i ddatrys unrhyw ddiffygion ynglŷn â'r ffordd y mae sefydliad addysg uwch yn rheoli ei lety ar gyfer myfyrwyr. Yn achos methiannau rheoli difrifol neu barhaus, caiff y Pwyllgor benderfynu nad yw sefydliad addysg uwch bellach yn cydymffurfio â'r Cod mewn perthynas â rhan o'i lety myfyrwyr neu'r cyfan ohono. Mewn achos o'r fath rhaid tynnu sylw'r awdurdod tai lleol ar gyfer yr ardal lle lleolir yr adeilad i'r ffaith fod adeilad wedi ei ddileu o'r Atodlen.

8.8 Mae mabwysiadu'r Cod gan **sefydliad** yn cynnwys y cyfrifoldebau canlynol:

- Dylai'r sefydliad gyflwyno i Brifysgolion y Deyrnas Unedig restr o'r holl adeiladau y mae'n gofalu amdanynt neu'n eu rheoli sy'n dod o fewn cwmpas y Cod. Dylai'r sefydliad ddiweddaru'r rhestr hon, a hysbysu Prifysgolion y Deyrnas Unedig ynghylch unrhyw newidiadau, yn flynyddol.

- Dylai'r adeiladau hyn fodloni'r safonau, a chydymffurfio â'r gweithdrefnau, a nodir yn y Cod ac mewn deddfwriaeth berthnasol.

- Gall fod yna beth llety ar gyfer myfyrwyr sy'n cael ei ofalu amdano a'i reoli gan sefydliad addysg uwch nad yw'n cydymffurfio â'r Cod hwn ac sy'n dod o fewn cwmpas trwyddedu gorfodol. Mae'n amod achredu o fewn y Cod hwn fod y sefydliad yn trwyddedu'r llety hwnnw gyda'i awdurdod lleol.

- Dylai sefydliadau sicrhau fod yna drefn gwyno briodol ar gael a bod y drefn honno wedi'i hintegreiddio mewn ffordd addas â'r gweithdrefnau cwyno ehangach o fewn y sefydliad. Dylai pob trefn o'r fath ganiatáu cynrychiolaeth

gan fyfyrwyr. Mae gofyn i sefydliadau (ar gais, yng nghyd-destun adolygu'r Cod yn rheolaidd) ddarparu gwybodaeth gryno, heb gynnwys enwau yn achos cwynion gan fyfyrwyr, ar gyfer Prifysgolion y Deyrnas Unedig ynghylch unrhyw gwynion o bwys a wnaed yn ymwneud â gweithredu'r Cod gan y sefydliad.

- Mae gofyn i sefydliadau sicrhau fod eu harchwilwyr mewnol yn cynnwys sut mae'r sefydliad yn rheoli'i lety myfyrwyr gyda golwg ar y Cod o fewn cwmpas eu harchwiliad. Dylai archwilwyr mewnol adolygu gweithredu'r Cod hwn gan sefydliad fel rhan o'u gwaith blynyddol. Dylid anfon yr adran berthnasol o adroddiad yr archwilwyr, ymateb y rheolwyr a'r amserlen ar gyfer ymdrin ag argymhellion yr archwilwyr at Brifysgolion y Deyrnas Unedig.

- Mae'n bosibl y bydd yna achosion prin pan fydd archwiliadau a/neu brosesau gwyno a/neu arolygiadau lleol yn amlygu methiant systemig sylweddol ynglŷn â rheoli llety myfyrwyr. Mewn achos felly, fe ddilëir rhai o adeiladau sefydliad, neu bob un ohonynt, o'r rhestr yn yr Atodlen i'r Cod; ac os byddai rhai o'r adeiladau hynny, neu bob un ohonynt, fel arall yn ddarostyngedig i drwyddedu gorfodol, rhaid i'r sefydliad geisio trwydded(au) oddi wrth yr awdurdod lleol perthnasol.

Atodiad A Beth yw "managed and controlled" ("yn cael ei ofalu amdano a'i reoli")?

Mae angen penderfynu pa un ai a yw llety myfyrwyr yn cael ei ofalu amdano a'i reoli gan *sefydliad addysgol* ynteu, mewn partneriaeth â sefydliad addysg uwch, gan *ddarparwr* arall. Datblygwyd dull o wneud hynny ar gyfer "Code of Standards for Larger Developments" Rhwydwaith Achredu'r Deyrnas Unedig ac mae Cod Prifysgolion y Deyrnas Unedig/Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon yn mabwysiadu'r dull hwnnw. Fel y nodir yn y Cod ei hun (paragraff ix), mae hyn yn fater fydd yn cael ei adolygu.

Mae'r dull yn dyfarnu pwyntiau ar gyfer pob elfen o ofal a rheoli, sy'n adlewyrchu pa bwysigrwydd cymharol a roddir i bob un o'r elfennau hynny.

Mae'r elfennau fel a ganlyn:

Marchnata – Mae hyn yn adlewyrchu pwy sy'n gyfrifol am hysbysebu a gosod yr adeilad. Os yw'r datblygiad yn drefniant enwebu gwarantedig neu ffurfiol, mae'n amlwg mai'r sefydliad addysgol fyddai'n gyfrifol. Byddai trefniadau anffurfiol rhwng sefydliadau addysgol a chyflenwr preifat, gyda'r cyflenwr hefyd yn marchnata'r adeilad yn uniongyrchol, yn golygu mai'r darparwr fyddai'n cyflawni'r marchnata. 1 pwynt

Casglu Rhent – Mae hyn yn adlewyrchu pwy sy'n casglu'r rhent. 1 pwynt

Tenantiaeth – Mae hyn yn adlewyrchu gyda phwy y mae'r tenant o fyfyriwr yn llofnodi'i gytundeb tenantiaeth, sef ai gyda'r sefydliad addysgol ynteu gyda darparwr arall. Mae hyn yn fater pwysig gan ei fod yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer yr holl drefniant gosod. 6 pwynt

Rheoli Cyfleusterau Caled – sef cynnal a chadw ac adnewyddu strwythur yr adeiladau a'r cyfarpar/offer a'r systemau adeiladau cysylltiedig, a gall gwmpasu'r ystâd lle lleolir yr adeilad (yn cynnwys tiroedd a gerddi). 2 bwynt

Rheoli Cyfleusterau Meddal – sef y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y myfyrwyr sy'n lletya yn yr adeilad. Mae yna saith cwestiwn yn ymwneud ag agweddau ar y gwasanaethau hynny:

Glanhau – pwy sy'n glanhau'r preswylfeydd neu'r ardaloedd cyffredin? 1 pwynt
Diogelwch – pwy sy'n gofalu am ddiogelwch, yn enwedig diogelwch y tu allan i oriau? Yn aml, caiff y gwaith hwn ei rannu rhwng darparwr a sefydliad addysgiadol, a bryd hynny, byddid yn rhoi pwynt i'r ddau barti. 1 pwynt
Atgyweirio – pwy sy'n gwneud unrhyw waith atgyweirio o ddydd i ddydd o fewn yr adeilad? 1 pwynt

Rheolweithiau Iechyd a Diogelwch - pwy sy'n gyfrifol am reolweithiau iechyd a diogelwch: profi larymau tân, cynnal a chadw cyfarpar diogelwch, cyflawni asesiad risg o'r adeilad? 1 pwynt

Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau – pwy fyddai'n ymdrin ag argyfyngau yn ymwneud â'r adeilad y tu allan i oriau, er enghraifft, methiant y cyflenwad trydan neu ddŵr yn gollwng? Nid yw hyn yn cynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau a gynigir i fyfyrwyr fel rhan o gysylltiadau tenantiaeth neu ofal am breswylwyr. 1 pwynt

Cysylltiadau Tenantiaeth – pwy fyddai'n ymdrin â materion sy'n codi gyda thenantiaid ac â chymorth i denantiaid, er enghraifft, myfyrwyr sy'n dymuno gadael, annifyrrwch rhwng tenantiaid, sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, problemau iechyd meddwl? 2 bwynt

Gofal am Breswylwyr – pwy sy'n darparu gofal ar gyfer preswylwyr dros nos i ymdrin â materion sy'n codi gyda thenantiaid yn ystod y nos? Nid yw hyn yn cynnwys y materion diogelwch a gafodd eu crybwyll uchod. 1 pwynt

Yr atebion posibl yw: ie, yn gyfrifol; na, ddim yn gyfrifol; y ddau barti'n gyfrifol.

Mae'r cyfanswm sgôr uchaf yn penderfynu pa un ai'r *sefydliad addysgol* ynteu *ddarparwr* arall sy'n rheoli ac yn gofalu am yr adeilad dan sylw.

Gellir felly benderfynu a yw adeilad yn cael ei ofalu amdano a'i reoli gan sefydliad addysgol drwy gyfeirio at y tabl isod.

Enw'r Adeilad: .....

	Ar gael	**Pwy**	**Darparwr**	**Pwyntiau**	**Sefydliad Addysgol**	**Pwyntiau**
Marchnata	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Casglu Rhent	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Tenantiaeth	6	Y ddau	ie	6	ie	6
Rheoli Cyfleusterau Caled	2	Y ddau	ie	2	ie	2
Rheoli Cyfleusterau Meddal						
Glanhau	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Diogelwch	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Atgyweirio	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Rheolweithiau Iechyd a Diogelwch	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Cysylltiadau Tenantiaeth	2	Y ddau	ie	2	ie	2
Gofal am Breswylwyr	1	Y ddau	ie	1	ie	1
Cyfanswm Pwyntiau				**18**		**18**

Pan fo cyfanswm y pwyntiau o dan “sefydliad addysgol” yn uwch na’r cyfanswm ar gyfer “darparwr”, ystyrir mai’r sefydliad addysg uwch/addysg bellach sy’n gofalu am yr adeilad ac yn ei reoli.

Safleoedd "prif brydles"

Beth bynnag fo’r canlyniad uchod, ni ystyrir safleoedd “prif bridles” fel eu bod yn “managed and controlled” (“yn cael eu gofalu amdanynt a’u rheoli”) gan y sefydliad addysg uwch, ac ni fyddant felly’n cael eu hystyried fel eu bod wedi’u heithrio rhag gorfod cael eu trwyddedu. Diffinnir safle “prif bridles” fel adeilad bach oddi ar y stryd a gafodd ei addasu i letya deg neu lai o fyfyrwyr ac sydd wedi’i lesio am ddim rhagor na thair blynedd gan y sefydliad oddi wrth ddarparwr preifat.

Atodiad B **Amlinelliad o'r prif ddarpariaethau sy'n berthnasol yn Neddf Tai 2004**

Noder fod yr atodiad hwn yn cael ei gynnwys er mwyn darparu ar gyfer rheolwyr grynodeb wedi'i symleiddio o'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer codau ymarfer. Cynhwysir yn uniongyrchol rhai adrannau o'r taflenni ffeithiau ynghylch y Ddeddf a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. NID yw'r Atodiad yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith.

Safonau tai

1. Mae'r Ddeddf (Rhan 1) yn disodli'r prawf blaenorol, sef "fitness" ("ffitrwydd"), gyda system newydd ar gyfer asesu cyflwr tai – y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Gellir cymhwyso'r system ar gyfer unrhyw fath o annedd. Nid oes eithriad ar gyfer tai a reolir neu y gofelir amdanynt o fewn addysg uwch, nac, yn wir, ar gyfer unrhyw gategori arall o dai.

2. Asesiad o risgiau i iechyd a diogelwch mewn safleoedd preswyl, yn seiliedig ar dystiolaeth, yw'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Diben yr asesiad yw darparu gwybodaeth wrthrychol y gall awdurdodau lleol seilio penderfyniadau ynghylch gorfodi arni.

3. Mae'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai yn darparu graddfa ar gyfer naw ar hugain o gategorïau o beryglon ynglŷn â thai. *Nid* yw'n darparu un raddfa unigol ar gyfer yr annedd cyfan neu, yn achos tai amlfeddiannaeth, ar gyfer yr adeilad cyfan. Dynodir y raddfa ar ffurf sgôr rifol. Mae'r asesiad yn seiliedig ar y risg i'r *meddiannydd posibl sy'n fwyaf agored i'r perygl hwnnw.* Er enghraifft, ar gyfer yr henoed y mae grisiau'n fwyaf peryglus, felly ar gyfer asesu peryglon yn gysylltiedig â grisiau, fe ystyrir yr henoed fel y grŵp sy'n fwyaf agored i'r peryglon hynny.

4. Fe seilir gweithredu gan awdurdodau, sy'n amrywio o orchymyn gwella hyd at orchymyn dymchwel, ar ystyriaeth dri cham: (a) y raddfa o berygl a benderfynir o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai; (b) a oes gan yr awdurdod ddyletswydd neu bŵer i weithredu, a benderfynir yn ôl pa un ai a yw'r perygl sy'n bresennol yn uwch ynteu'n is na'r trothwy a ddynodir yn y rheoliadau; ac (c) barn yr awdurdod ynghylch beth yw'r ffordd fwyaf addas o fynd i'r afael â'r perygl.

5. Cynghorir awdurdodau i ystyried pa mor agored yw'r meddiannydd *gwirioneddol* (yn hytrach na meddiannydd posibl) i'r perygl wrth benderfynu sut orau i weithredu.

Trwyddedu tai amlfeddiannaeth

6. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ymwneud â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth - y rheidrwydd i drwyddedu'r rheiny, gweithdrefnau ar gyfer rhoi neu wrthod trwyddedau a materion cysylltiedig. Mae yna ddiffiniad newydd o dŷ amlfeddiannaeth: yn y bôn, tŷ neu fflat y sydd ym meddiant mwy nag un aelwyd a lle mae'r aelwydydd yn rhannu un neu ragor o amwynderau sylfaenol. (Adran 254) Gellir, fodd bynnag, eithrio rhai categorïau o dai a fyddai wedi bodloni'r meini prawf hyn o'r diffiniad. Cyfeirir at y categorïau hynny yn y Ddeddf fel "excepted accommodation" ("llety a eithrir"). (Adran 254(5) ac Atodlen 14) - gweler paragraffau 11 ymlaen isod.

7. Bydd trwyddedu'n orfodol ar gyfer tai amlfeddiannaeth o fwy o faint, gyda risgiau uwch, fel arfer rhai sydd â thri neu ragor o loriau ac sy'n lletya pump neu ragor o bobl mewn dwy aelwyd neu ragor. Mae hyn yn unol â pholisi'r llywodraeth o ganolbwyntio ar dai lle mae'r risg i iechyd a diogelwch y meddianwyr fwyaf.

8. Mae'r Ddeddf yn darparu y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol bennu drwy orchymyn ddisgrifiadau'r tai amlfeddiannaeth sydd i'w trwyddedu.

9. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trwyddedu dethol. Caiff awdurdod tai lleol (LHA yn y dyfyniad) sefydlu cynllun trwyddedu ar yr amod y bodlonir rhai amodau ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth yr awdurdod cenedlaethol. Un o'r amodau yw: "An area is experiencing a significant and persistent problem caused by anti-social behaviour and that some or all private sector landlords in the area are not taking appropriate action to combat the problem and the LHA is satisfied the introduction of licensing, when combined with other measures taken by the LHA or in conjunction with others, will lead to a reduction or elimination of the problem".

10. Bydd llety addysg uwch sydd wedi'i eithrio o'r darpariaethau trwyddedu cyffredinol hefyd wedi'i eithrio o drwyddedu dethol.

Codau ymarfer

11. Caiff yr awdurdod cenedlaethol eithrio o'r diffiniad o dŷ amlfeddiannaeth, at ddibenion trwyddedu, lety sy'n cael ei ofalu amdano a'i reoli gan sefydliadau addysg uwch neu addysg bellach, pan ddefnyddir y llety yn unig neu gan fwyaf gan bersonau i'r diben o ddilyn cwrs addysg bellach neu addysg uwch llawn amser. (Adran 254(5) ac Atodlen 14, paragraff 4). Bydd rheoliadau'n dynodi "a particular educational establishment or a particular description of educational establishments" na fydd yn cael eu trin fel tai amlfeddiannaeth.

12. Caniateir "exception" ("eithrio") ar y sail y bydd pob sefydliad a'i adeiladau sydd wedi'u heithrio felly'n cael eu rheoli'n unol â chod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo. (Adran 233). Mae codau'n gosod safonau ar gyfer ymddygiad a gweithredu sydd i'w dilyn mewn perthynas â rheoli tai amlfeddiannaeth neu lety sydd wedi'i eithrio o'r diffiniad o dŷ amlfeddiannaeth.

13. Yn absenoldeb y darpariaethau hyn, byddai llawer o adeiladau sy'n lletya myfyrwyr ac y gofelir amdanynt a'u rheoli gan sefydliadau addysg uwch yn gorfod cael eu trwyddedu (paragraffau 6-10 uchod). Fodd bynnag, y mae darpariaethau'r Ddeddf ynghylch safonau tai yn gymwys ar gyfer pob math o lety myfyrwyr (paragraffau 1-5 uchod).

Atodiad C **Gweithdrefn gwyno**



Atodiad D Proses archwilio a chydymffurfiaeth

O fewn y sefydliad addysg uwch

1. Mae archwilwyr yn cynnwys sut mae'r sefydliad yn rheoli ei lety myfyrwyr, gyda golwg ar y Cod hwn, o fewn cwmpas eu harchwiliad.

2. Adolygir yr adroddiad o'r archwiliad ar reoli llety gan y corff llywodraethu.

3. Mewn achosion lle canfyddir na chydymffurfiwyd â'r Cod, caiff cynllun gweithredu ei baratoi yn nodi sut y byddir yn datrys y diffygion.

Pwyllgor Rheoli Cod Prifysgolion y Deyrnas Unedig/Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon

4. Bydd yn derbyn, oddi wrth bob un o'r sefydliadau addysg uwch a'r sefydliadau addysg bellach a fabwysiadodd y Cod hwn, yr adran berthnasol o adroddiad yr archwilwyr, ymateb y rheolwyr a'r amserlen ar gyfer ymdrin ag argymhellion yr archwilwyr.

5. Bydd yn archwilio achosion o fethu â chydymffurfio a nodwyd yn adroddiadau archwilwyr.

6. Bydd yn derbyn gwybodaeth ynghylch cwynion a gyfeiriwyd at gorff uwch o fewn sefydliad addysg uwch.

7. Bydd yn comisiynu ac yn derbyn adroddiadau ynghylch cwynion a gyfeiriwyd yn uniongyrchol at Bwyllgor Rheoli Cod Prifysgolion y Deyrnas Unedig/ Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon neu i gyrff allanol.

Gweithredu gan y Pwyllgor

8. Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r adroddiadau a dderbyniwyd (3-5 uchod) caiff y Pwyllgor weithredu fel a ganlyn:

    - Penderfynu nad oes angen gweithredu pellach

    - Gwneud argymhellion i'r sefydliad addysg uwch ynghylch y camau y dylid eu cymryd i ddatrys y diffygion a nodwyd mewn rheoli llety

    - Gwneud gwiriadau cydymffurfiaeth annibynnol

- Dyafrnu nad yw'r sefydliad bellach yn cydymffurfio â'r Cod yn achos un neu ragor o'r adeiladau a restrir yn yr Atodlen i'r Cod

Rhestr o'r Adeiladau yng Nghymru y mae'r Cod hwn yn gymwys ar eu cyfer

Cod Ymarfer Prifysgolion y Deyrnas Unedig/Cynhadledd Sefydlog y Prifathrawon

Adeiladau mewn Sefydliadau yng Nghymru ar 16 Mai 2006

Sefydliad	Safle	Adeilad
Prifysgol Caerdydd	Neuadd Aberdare	Neuadd Aberdare
Prifysgol Caerdydd	Llys Talybont a De Talybont	Llys Talybont
Prifysgol Caerdydd		Tai Myfyrwyr (Campws - Gogledd)
Prifysgol Caerdydd		Neuadd Hodge (Campws - Gogledd)
Prifysgol Caerdydd		Neuadd Colum (Campws - Gogledd)
Prifysgol Caerdydd		Neuadd Aberconway (Campws - Gogledd)
Prifysgol Caerdydd		Tai ~ Pentref Myfyrwyr (Campws - De)
Prifysgol Caerdydd		Neuadd Gordon (Campws - De)
Prifysgol Caerdydd	Campws Senghennydd/De/Gogledd	Llys Senghennydd (Campws Senghennydd)
Prifysgol Caerdydd		Neuadd Roy Jenkins (Campws - Canolog)
Prifysgol Caerdydd		Llys Cartwright (Campws - Canolog)
Prifysgol Caerdydd	Neuadd y Brifysgol a Campws - Canolog	Neuadd y Brifysgol
Prifysgol Caerdydd	Gogledd Talybont	Gogledd Talybont
Prifysgol Caerdydd		De Talybont
Prifysgol Caerdydd		Neuadd Senghennydd (Campws Senghennydd)
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	Neuadd Breswyl Townhill	Neuadd Gŵyr
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	Neuadd Breswyl Townhill	Neuadd Cenydd
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	Neuadd Breswyl Mount Pleasant	Adeilad Dylan Thomas
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	Neuadd Breswyl Townhill	Neuadd Dyfed
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	Neuadd Breswyl Mount Pleasant	Neuadd Dylan Thomas
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 2
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	NON C
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Archesgob Noakes 1
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Archesgob Noakes 2
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Archesgob Noakes 3
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Archesgob Noakes 4
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Y Tŵr
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	NON B
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	NON D
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 1
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 13
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	NON A
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 3
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 14
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 12
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 9
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 8
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 7

Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 4
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 6
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 5
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	Myrddin 15
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ G
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ M
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ L
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ K
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ H
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ E
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ F
Prifysgol Morgannwg	Neuadd Philip Evans	UA - UB
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ T
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ D
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ J
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ C
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ P
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ S
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ V
Prifysgol Morgannwg	Rhandy Neuadd Fforest	Neuadd Fforest
Prifysgol Morgannwg	Neuadd Philip Squire	AC - UD
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ A
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ B
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ N
Prifysgol Morgannwg	Cwrt Morgannwg	Tŷ R
Prifysgol Cymru, Bangor		Llys Tryfan Bloc 'D'
Prifysgol Cymru, Bangor		Llys Tryfan Bloc 'E'
Prifysgol Cymru, Bangor		Neuadd Emrys Evans Bloc 'C'
Prifysgol Cymru, Bangor		Neuadd Emrys Evans Bloc 'B'
Prifysgol Cymru, Bangor		Neuadd Emrys Evans Bloc 'A'
Prifysgol Cymru, Bangor	Safle Ffriddoedd	Neuadd Reichel
Prifysgol Cymru, Bangor		Llys Tryfan Bloc 'F'
Prifysgol Cymru, Bangor		Elidir Bloc 'S'
Prifysgol Cymru, Bangor		Ystafelloedd 25-30, Bloc 'D', Neuadd Eryri, Allt y
Prifysgol Cymru, Bangor		Fflat 2, Ystafelloedd A-E, Neuadd Eryri, Allt y Fi
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Borth Bloc 'X'
Prifysgol Cymru, Bangor		Ystafelloedd 37-42, Bloc 'D', Neuadd Eryri, Allt y
Prifysgol Cymru, Bangor		Cefn y Coed Bloc 'H'
Prifysgol Cymru, Bangor		Ystafelloedd 13-18, Bloc 'D', Neuadd Eryri, Allt y
Prifysgol Cymru, Bangor	Wrecsam	Ystafelloedd 7-12, Bloc 'D', Neuadd Eryri, Allt y
Prifysgol Cymru, Bangor		Bryn Eithin Bloc 'L'
Prifysgol Cymru, Bangor		Bryn Eithin Bloc 'K'
Prifysgol Cymru, Bangor		Bryn Eithin Bloc 'J'
Prifysgol Cymru, Bangor	Safle'r Santes Fair	Y Santes Fair
Prifysgol Cymru, Bangor		Neuadd John Morris Jones
Prifysgol Cymru, Bangor	Preswylfeydd Ffordd y Coleg	Neuadd Rathbone
Prifysgol Cymru, Bangor		Neuadd Arfon
Prifysgol Cymru, Bangor	Safle'r Normal	Neuadd Seiriol
Prifysgol Cymru, Bangor		Cefn y Coed Bloc 'L'

Prifysgol Cymru, Bangor		Fflat 1, Ystafell A, Neuadd Eryri, Allt y Ficerdy
Prifysgol Cymru, Bangor		Bryn Dinas Bloc ‘Z’
Prifysgol Cymru, Bangor		Cefn y Coed Bloc ‘K’
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Borth Bloc 'M'
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Borth Bloc ‘N’
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Borth Bloc ‘P’
Prifysgol Cymru, Bangor		Elidir Bloc ‘R’
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Glyder Bloc ‘V’
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Glyder Bloc ‘W’
Prifysgol Cymru, Bangor		Tegfan Bloc ‘Y’
Prifysgol Cymru, Bangor		Y Glyder Bloc ‘T’
Prifysgol Cymru, Bangor		Bloc ‘J’ Cefn y Coed
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Baltimore 6 -10
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Brycheiniog
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	Campws Plas Gwyn	Morgannwg
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Y Byngalo, oddi ar Circle Way East
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Warwick Uchaf
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Stuttgart
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Neville
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Baltimore 1 - 5
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Môn
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Tŷ’r Coleg
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Bute
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Nantes
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Penfro
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Caerfyrddin
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Maesyfed
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Mynwy
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	Campws Rhodfa Colchester	Tŷ’r Coleg
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Tŷ Thomas
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Y Byngalo, oddi ar Heol Cyncoed
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Fitzhammon
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Herbert
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	Campws Cyncoed	Stradling
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Ellis
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd		Clare
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Carpenter
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Glyndŵr
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Pen-y-lan
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		John Williams
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Pumlumon
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Godre'r Glais
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	Cwrt Mawr, Rosser a Trefloyne	Cwrt Mawr
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Tŷ Clarendon
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Ceredigion
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Tŷ Caron
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Caerleon
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Brynderw
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Blaenwern

Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Balmoral
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Neuadd Alexandra
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Hafan
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Tŷ Gwerin
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Aberglasne
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		2 Lôn Hendre
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	Preswylfeydd Llanbadarn	Aeron
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Cletwr
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Dyfi
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	Pentre Jane Morgan	Pentre Jane Morgan
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Leri
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	Pantycelyn	Pantycelyn
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	Penbryn	Penbryn
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Einion
Prifysgol Cymru, Aberystwyth		Rosser a Trefloyne
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	Preswylfeydd y Dref a'r Promenâd	7 Rhodfa'r Môr
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Penhow
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Queen Guinevere
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Raglan
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Skenfrith
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Prif Adeilad
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Blaenavon
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Offa
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Grosmont
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Camelot
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Abergavenny
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Newport
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Machen
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Llantarnum
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	King Arthur
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Julian
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Hafren
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Fairoak
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Ebbw

Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Dolaucothi
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Neuaddau Preswyl, Campws Caerllion	Islwyn
Coleg Meirion-Dwyfor	Campws Glynllifon	Glanrafon
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Carl Lofmark
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Dawson
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Bwthyn Dolwen
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Edwin Morris
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Tŷ Greenacres
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Harford I
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Harford II
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Harris
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd John Richards
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Lloyd Thomas I
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Lloyd Thomas II
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Lloyd Thomas III
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Hen Adeilad Dewi Sant
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Bwthyn Glan yr Afon
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Roderick Bowen
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Simon Evans
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Walker
Enw'r sefydliad:	**Prifysgol Cymru, Abertawe**	

Safle Breswyl	**Enw'r Adeilad**	**Cod Post**
Preswylfeydd Singleton	Cilfái	SA2 8PU
Preswylfeydd Singleton	Preseli	SA2 8PS
Preswylfeydd Singleton	Cefn Bryn	SA2 8PT
Preswylfeydd Singleton	Rhosili	SA2 8PW
Preswylfeydd Singleton	Oxwich	SA2 8PQ
Preswylfeydd Singleton	Langland	SA2 8QL
Preswylfeydd Singleton	Caswell	SA2 8QJ
Tŷ Beck	Bloc A	SA2 0NF

Tŷ Beck	Bloc B	SA2 0NF
Tŷ Beck	Bloc C	SA2 0NF
Tŷ Beck	Bloc D	SA2 0NG
Tŷ Beck	Bloc E	SA2 0NH
Tŷ Beck	Bloc F	SA2 0NL
Tŷ Beck	Bloc G	SA2 0NL
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 1	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 2	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 3	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 4	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 5	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 6	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 7	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 8	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 9	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 10	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 11	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 12	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 13	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 14	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 15	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 16	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 17	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 18	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 19	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 20	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 21	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 22	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 23	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 24	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 26	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 27	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 28	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 29	SA2 7PG

Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 30	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 31	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 32	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 33	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 34	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 35	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 36	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 37	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 38	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 39	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 40	SA2 7PG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 41	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 42	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 43	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 44	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 45	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 46	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 47	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 48	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 49	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 50	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 51	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 52	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 53	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 54	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 55	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 56	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 57	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 58	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 59	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 60	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 61	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 62	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 63	SA2 7PZ

Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 64	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 65	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 66	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 67	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 68	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 69	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 70	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 71	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 72	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 73	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 74	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 75	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 76	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tŷ 77	SA2 7PZ
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 80-81	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 82-85	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 86-87	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 88-89	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 90-93	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 94-97	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 98-99	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 100-101	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 102-105	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 106-109	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 110-111	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 112-115	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 116-119	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 120-123 (nid 121)	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 124-127	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 128-131	SA2 7QG
Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan	Tai 132-135	SA2 7QG
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 136-144	SA2 7QL
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 145-150	SA2 7QL
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 151-159	SA2 7QL

Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 160-165	SA2 7QL
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 166-171	SA2 7QN
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 172-177	SA2 7QN
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 178-186	SA2 7QN
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 187-195	SA2 7QN
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 196-204	SA2 7QW
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 205-210	SA2 7QW
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 211-219	SA2 7QW
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 220-223	SA2 7QW
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 224-227	SA2 7QW
Fflatiau Woodside, Hendrefoelan	Fflatiau 228-233	SA2 7QW